STRATEGAETH GLINIGOL GOGLEDD CYMRU

GWASANAETHAU GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL

Adroddiad cryno Cam 3

1 Cyflwyniad a'r 'daith hyd yn hyn'

Cytunwyd bod yr angen i ddisgrifio sut bydd gwasanaethau'n newid yn y gymuned i fodloni gofyn cynyddol a hefyd i gefnogi newidiadau mewn gwasanaethau aciwt yn flaenoriaeth strategol allweddol ar gyfer y GIG yng Ngogledd Cymru.

Rhoddwyd y dasg o ateb y cwestiwn canlynol i'r ffrwd waith Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol:

Sut gallwn ni gyflawni'r model ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yng Ngogledd Cymru?

Sefydlwyd grŵp craidd i arwain y gwaith hwn ac i ddatblygu cynigion i'w hystyried gan y grwpiau arbenigol a'r grwpiau rhan-ddeiliaid ehangach.

Yn ystod y cam cyntaf ymgymerwyd â'r gwaith canlynol, wedi'i gefnogi gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC):

- Adolygiad o waith lleol yr ymgymerwyd ag ef i ddatblygu strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Fframweithiau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chynlluniau Gweithredu Cyflyrau Cronig.
- Asesiad anghenion iechyd bwrdd gwaith yn defnyddio deunyddiau a gyhoeddwyd eisoes;
- Adolygiad cyflym o lenyddiaeth mewn perthynas â symud gofal i leoliadau cymunedol;
- Crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd ar y prosiect hyd yn hyn;
- Disgrifiad arfaethedig o fodel gofal y dyfodol.

Darparodd yr adroddiad cryno o Gam 1 wybodaeth mewn perthynas ag:

- Egwyddorion cyffredin;
- Yr asesiad o anghenion iechyd;
- Cyflwyniad i'r ddarpariaeth wasanaeth gyfredol;
- Adolygiad cyflym o lenyddiaeth;
- Amlinelliad o'r model ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru;
- Galluogwyr i gyflawni'r model gwasanaeth arfaethedig.

Yn ystod yr ail gam, roedd y grŵp craidd wedyn yn awyddus i nodi meysydd dilynol o waith a fyddai'n:

- Cefnogi datblygu mwy o fanylder y tu ôl i'r model gwasanaeth;
- Adlewyrchu'r egwyddorion dylunio a amlinellwyd yng Ngham 1;
- Posibl eu darparu yn ystod amserlen y prosiect '90 diwrnod';
- Darparu argymhellion a fyddai'n dangos cynnydd go iawn o ran cyflawni'r model gofal y cytunwyd arno;
- Darparu 'asgwrn cefn' o ran argymhellion i gefnogi datblygu a rhoi ar waith gynlluniau gwasanaeth yn lleol i fodloni anghenion cymunedau lleol.

Cytunodd y grŵp craidd ar y meysydd canlynol ar gyfer gwaith pellach, manylach sy'n seiliedig ar lefel yr adborth a gafwyd gan y rhan-ddeiliaid/arbenigwyr a'r hyn y teimlai'r grŵp a fyddai o fwy o fudd i'r prosiect:

- Egwyddorion model cymdogaeth ar gyfer Gogledd Cymru gyda manylder ynglŷn â strwythurau darparu gwasanaeth, rheolaeth ac arweinyddiaeth;
- Cynigion i ddatblygu canolbwynt cyfathrebu ar gyfer Gogledd Cymru;
- Disgrifiad cynhwysfawr o ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol GIG, gyda rhywfaint o fanylder sylfaenol o wasanaethau gofal cymunedol eraill, megis gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal yn y sector gwirfoddol;
- Gwell ddealltwriaeth o'r arian sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

Yn ogystal cytunwyd ar draws y tair ffrwd waith y dylai pob un ddatblygu set o feini prawf cynllunio nad ydynt yn ymwneud ag arian i'w defnyddio i asesu unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth neu rai yn y dyfodol.

Yn ystod y sesiynau grŵp yn y gweithdy ar 13 Mai datblygwyd y meini prawf cynllunio. Cytunodd y grwpiau mai gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion a grymuso cleifion yw dau o'r meini prawf pwysicaf wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Rhoddwyd cyflwyniad gan aelodau o'r tîm cymdogaeth o Wynedd gyda chwestiynau a thrafodaeth ar y themâu canlynol:

- Mynediad at gofnodion cleifion ar draws gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol;
- Datblygu'r gweithlu; sgiliau a hyfforddiant;
- Rolau nyrsys cymunedol a nyrsys practis yn y dyfodol;
- Canlyniadau a buddion ar gyfer cleifion y model cymdogaeth a sut y caiff y rhain eu mesur;
- Rhwystrau i fyw o ddydd i ddydd a achosir gan gyflyrau hirdymor;
- Anghenion o ran datblygiad trefniadaethol a materion arweinyddiaeth;

- Datblygu mwy o weithio ar y cyd ar draws nyrsio, meddygon teulu, y sector gwirfoddol a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Trafodwyd y syniad o ddatblygu 'canolbwynt cyfathrebu' hefyd gan y ddau grŵp, a chytunwyd yn gyffredinol bod gwerth mewn ystyried y cysyniad ymhellach.

Yn dilyn y digwyddiad a gynhaliwyd ar 13 Mai mae'r grŵp craidd wedi ystyried yr adborth a'r sylwadau a dderbyniwyd, ac mae wedi datblygu ymhellach y meysydd a flaenoriaethwyd i'w cyflwyno yn y digwyddiad terfynol ar 24 Mehefin.

2 Egwyddorion

Nodwyd nifer o egwyddorion cyffredin sy'n tanategu rhaglen waith Strategaeth Glinigol Gogledd Cymru. Ceir y rhain hefyd ar y wefan.

Wrth ystyried y model gofal ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol datblygwyd 'egwyddorion dylunio' manylach sy'n berthnasol i'r gwasanaethau hyn.

Er y cafodd y rhain eu cynnwys yn yr adroddiadau cryno blaenorol mae'n bwysig eu hystyried drwy gydol y broses hon.

Caiff yr egwyddorion dylunio eu cynnwys eto isod.

Mae angen i ni:

- Adeiladu model sy'n rhagweld anghenion dinasyddion yn hytrach nag ymateb i argyfyngau;
- Grymuso unigolion i gynnal a chadw eu hiechyd a'u lles eu hunain drwy hyrwyddo ataliad a hunanreolaeth;
- Trin cleifion yn hytrach nag afiechydon. Gan fod gan y rhan fwyaf o bobl fwy nag un broblem mae angen i ni osgoi sefyllfaoedd pan fydd arbenigwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros rannau o'r gofal neu dros grwpiau o afiechydon;
- Integreiddio gwasanaethau'n well ar draws iechyd, llywodraeth leol, a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol;
- Sicrhau y caiff y claf/cleient ofal gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol;
- Darparu pwynt cyswllt cyntaf sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n ymatebol i fodloni anghenion pobl ddydd neu nos;
- Dileu'r angen i ysbytai ymddwyn fel porth geidwad ar gyfer y rhan fwyaf o brofion diagnostig;
- Creu ysgogiadau ar gyfer ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau a darparu 'cysylltiad' â darparwyr gofal, megis ymgynghori ar y ffôn, gwneud apwyntiadau ar-lein ac yn y blaen;

- Datblygu gwasanaethau a rolau ymhellach, sy'n darparu dewisiadau eraill i gleifion ac sy'n lleihau gofynion ar y meddyg teulu;
- Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gost effeithiol ac yn gynaliadwy;
- Datblygu mecanweithiau i fynd ati i werthuso ac adolygu darpariaeth o wasanaethau er mwyn sicrhau y darperir lefel o ansawdd a bod gwasanaethau'n ymatebol i anghenion y boblogaeth.

3 Crynodeb o ddarpariaeth gwasanaethau ac amcanion cyfredol

Cyfeiriodd adroddiad cryno Cam 1 at y doreth o wasanaethau yn ein cymunedau ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol, sy'n darparu ystod eang o ymyriadau a gofal. Cyfeiriodd hefyd at yr enghreifftiau o arfer da mewn perthynas ag amcanion ar y cyd ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd, yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn dibynnu ar arian tymor byr.

Yn ystod Camau 2 a 3 mae'r GICC wedi bod yn casglu rhagor o fanylion o ran darpariaeth gwasanaethau gyfredol a gaiff eu cyflwyno fel rhan o gam terfynol y gwaith hwn.

Bydd y gwaith a gyflwynir yn cynnwys:

- Disgrifiad o wasanaethau GIG sylfaenol a chymunedol cyfredol;
- Manylion sylfaenol ar wasanaethau gofal cymunedol eraill, megis gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol;
- Meysydd o arfer arloesol a gydnabyddir.

Yn ogystal, er mwyn cefnogi statws yr arddangoswr o ran cyflyrau cronig, mae BILI Gwynedd wedi dechrau mapio'r ddarpariaeth o wasanaethau fesul cymdogaeth.

4 Y model yn y dyfodol o ofal sylfaenol ac eilaidd yng Ngogledd Cymru

Y gwaith hyd yn hyn

- Ar ddiwedd Cam 1 cylch datblygu'r Strategaeth Glinigol roedd yn glir na ddiffiniwyd y cysyniad o Gymdogaeth a oedd yn tanategu'r model arfaethedig ar gyfer gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn ddigon clir i gyfranogwyr ddychmygu'r hyn a gynigwyd.

- Er mwyn amlygu ac esbonio hyn ymhellach, yn y digwyddiad Cam 2, disgrifiodd cydweithwyr iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol y gwaith a wnaed dros y 2 flynedd ddiwethaf o ran datblygu a mewnosod y cysyniad o gymdogaeth yng Ngwynedd.

- Er i'r adborth cychwynnol awgrymu bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol, dangosodd ymatebion dilynol bod pryderon o hyd ynglŷn â'r goblygiadau, yn enwedig ar gyfer partneriaid yn yr Awdurdod Lleol.

- Yn gynwysedig yn yr adborth cafwyd awgrym efallai na fu'n hollol glir bod y cynigion yn ymwneud yn bennaf â:

  - Sicrhau y caiff gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y GIG eu modelu mewn ffyrdd sy'n hwyluso ac yn cefnogi gwell gweithio ar y cyd gyda phartneriaid yn yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a
  - Galluogi defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i chwarae rôl allweddol mewn dylunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Yn hynny o beth, y sbardun allweddol yw cefnogi cynllunio a darparu gwasanaethau lleol sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion sy'n gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth, sgiliau ac adnoddau cyfunol sydd ar gael i ni o fewn ein cymunedau.

Y cefndir i'r cysyniad o Gymdogaeth

Wedi'i gyflwyno'n gyntaf yn y *Cynllun Oes* (mis Mai 2005) fel un o'r mecanweithiau ar gyfer cefnogi darpariaeth mwy o wasanaethau yn agosach at gartrefi pobl, mae'r cysyniad o gymdogaeth yn cyfeirio at boblogaeth o tua 30,000 i 50,000 o bobl. Cafodd hyn ei fewnosod ymhellach trwy ofyniad 2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai Fframwaith Gwasanaethau Cymunedol danategu pob un o'r Strategaethau Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles o 2008-2011). Gadawyd i'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol benderfynu'n lleol ar ddehongliad y cysyniad o gymdogaeth, a dilynodd graddfeydd gwahanol o ddatblygu ym mhob ardal.

Cafodd y cysyniad o gymdogaeth ei fewnosod ymhellach fel sail ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol ar y cyd i gefnogi gwelliant o ran Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru fel y'i gosodir ym Model a Fframwaith Llywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd fis Mawrth 2007. Mae'r Fframwaith yn rhagweld gwaith integredig sy'n canolbwyntio ar anghenion wedi'u hasesu unigolion sydd â chyflyrau cronig – darperir gofal gan wahanol asiantaethau ond wedi'i gydlynu gan gydlynydd a enwir sydd â'r awdurdod a'r mandad i dynnu'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn bodloni anghenion unigol. Mae ar gynllunio a chydlynu gofal ar gyfer unigolion felly angen mecanweithiau er mwyn trosi anghenion unigol yn anghenion y boblogaeth, wedi'u diffinio yn gyntaf ar lefel practisau cyffredinol unigol neu glystyrau ohonynt, ac wedyn ar lefel cymdogaeth.

Er nad yw'n cael ei gefnogi'n uniongyrchol gan sail dystiolaeth gadarn, mae'r diffiniad poblogaeth o 30,000 i 50,000 a awgrymwyd yn gyntaf gan LlCC yn

cynnig nifer o fuddion posibl:

- Mae'n cynrychioli màs critigol digonol o ran y boblogaeth i ganiatáu cynllunio a darparu rhesymol o wasanaethau sylfaenol a chymunedol;
- Mae'n cefnogi ymrwymiad ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaethau'r cyhoedd gan eu bod yn fwy ymwybodol o natur cymunedau a'u profiad cyfredol o ddarpariaeth o wasanaethau nag y byddent ar lefel fwy, sir gyfan;
- Mae'n cefnogi ymrwymiad agosach gyda chyrff ac asiantaethau lleol, gan gynnwys strwythurau cynrychiolwyr lleol megis cynghorau tref a chymuned;
- Mae'n cefnogi ac yn galluogi mapio a disgrifio'r ffordd y darperir gwasanaethau ar hyn o bryd, ac mae hefyd yn gwneud adnabod bylchau mewn gwasanaethau'n haws;
- Mae'n caniatáu datblygu gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cyfalafu ar a chefnogi a galluogi datblygiad cymunedol ehangach oherwydd ei fod yn rhoi llais cryfach i aelodau'r gymuned;
- Bydd yn cryfhau rhwydweithiau anffurfiol presennol rhwng staff proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a rhwng darparwyr y sectorau statudol a gwirfoddol.

Ble rydym yn awr

- Mae adolygiad cryno o'r sefyllfa bresennol yn awgrymu bod cyfanswm o 18 cymdogaeth wedi'u hadnabod ledled Gogledd Cymru. Mae'r rhain yn amrywio o ran maint poblogaeth o ychydig dros 20,000 i tua 69,000.

- Mewn rhai ardaloedd cytunwyd ar y rhain rhwng y GIG ac Awdurdodau Lleol; mewn ardaloedd eraill, caiff datblygiad gweithio mewn cymdogaethau ei beilota mewn ardaloedd a ddewiswyd cyn cytuno'n fwy ffurfiol ar ddefnyddio'r gymdogaeth fel sail ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau.

- Mewn rhai ardaloedd, nodwyd cymdogaethau llai sy'n adlewyrchu natur ac anghenion y gymuned. Bydd raid eu hailystyried os bydd rhai o'r buddion a amlygwyd uchod yn cael eu gwireddu.

- Mae gwaith ar amlinellu clystyrau posibl sy'n seiliedig ar feddygfeydd MT wedi dechrau ym mhob ardal.

- Mae lefel a natur integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn amrywio'n sylweddol o fewn ardaloedd BILI/ALI. Ceir nifer o enghreifftiau o arfer da ar raddfa fach y bydd modelau newydd angen adeiladu arnynt.

- Mae gwaith a wnaed yn Wrecsam a Gwynedd fel rhan o'r Arddangoswr

Rheoli Cyflyrau Cronig (CCM) wedi amlinellu'r strwythurau rheoli y bydd eu hangen i gefnogi datblygiad model gwasanaeth a fydd yn galluogi darpariaeth integredig o wasanaethau ar lefel unigolion. Bydd rhaglen waith yr arddangoswr cyfredol yn profi rhoi'r strwythurau hyn ar waith.

- Ymgymerir â rhaglenni gwaith CCM ym mhob ardal BILI / ALI, ac mae'r dysgu o'r datblygiadau hyn hefyd yn hanfodol i hysbysu darpariaeth gwasanaeth y dyfodol.

- Er nad yw'n hollol gyfystyr â'r holl wasanaethau Sylfaenol a Chymunedol, mae cyflyrau cronig yn cynhyrchu mwyafrif llethol yr angen am wasanaethau o fewn y gymuned, ac felly bydd y model ar gyfer CCM yn darparu'r isadeiledd i gefnogi gwasanaethau cymunedol ehangach.

Bydd y digwyddiad Strategaeth Glinigol terfynol ar 24 Mehefin yn:

- Ail-adrodd ac archwilio'r buddion sy'n gysylltiedig â gweithio mewn cymdogaeth;
- Adnabod heriau posibl a blaenoriaethu'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain;
- Disgrifio'r sefyllfa bresennol o ran datblygu cymdogaethau ar draws Gogledd Cymru;
- Datblygu ymhellach y meddwl ar drefniadau rheoli a llywodraethu sydd eu hangen i gefnogi datblygiad y cymdogaethau;
- Archwilio'r cysylltiadau rhwng cymdogaethau a phartneriaethau sefydledig.

5 Canolbwynt Cyfathrebu

Ystyriwyd y syniad o ddatblygu 'canolbwynt cyfathrebu' yn ystod Cam 2, a chytunwyd yn gyffredinol bod gwerth ystyried y cysyniad ymhellach. Mynegodd rhai'r farn y dylai'r 'canolbwynt', os y'i datblygir, ategu a gwella systemau eraill sydd eisoes wedi'u sefydlu ac ni ddylid dyblygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

Ymgymerwyd felly â gwaith pellach i ddeall yn well y gwasanaethau tebyg sydd eisoes ar gael yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â'r mathau o ganolbwyntiau cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu mewn rhannau eraill y DU.

Gwasanaethau Cyfredol
Er mwyn deall buddion a photensial canolbwynt cyfathrebu yng Ngogledd Cymru mae'n bwysig ystyried y gwasanaethau cyfathrebu sydd eisoes wedi'u sefydlu, yn enwedig ar gyfer gofal heb ei drefnu.

Disgrifir y gwasanaethau hyn isod:

Galw Iechyd Cymru
Mae Galw Iechyd Cymru'n wasanaeth ar gyfer gwybodaeth a chyngor ar iechyd sydd ar gael 24 awr y dydd, bob dydd.

Mae'r gwasanaeth yn darparu nid yn unig cyngor i bobl sy'n teimlo'n anhwylus ac nad ydynt yn sicr beth i'w wneud, ond hefyd yn darparu toreth o wybodaeth iechyd ar ystod eang o gyflyrau, triniaethau a gwasanaethau iechyd lleol.

Mae gan Galw Iechyd Cymru wefan lle gall y cyhoedd ddysgu mwy am eu hiechyd eu hunain drwy wyddoniadur A-Z. Mae hyn yn galluogi unigolion i ddod o hyd i wybodaeth ar ystod eang o wasanaethau yn eu hardal nhw yn ogystal â chynnig gwasanaeth ymholiadau ar-lein ar gyfer unrhyw gwestiynau.

Darperir gwybodaeth am brif fathau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y GIG yn lleol. Yn ogystal darperir gwybodaeth gyffredinol, manylion cyswllt defnyddiol ac atebion i gwestiynau cyffredin am wasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol y lleol. Yn ogystal mae cronfa ddata Iechyd, Lles a Chefnogaeth sydd â manylion am grwpiau lleol a sefydliadau cenedlaethol sy'n cynnig ystod o wasanaethau iechyd, lles a chefnogaeth.

Teleofal – Gogledd Cymru
Mae gwasanaethau teleofal yn cefnogi annibyniaeth pobl sy'n agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain trwy ddarparu rheolaeth o bell o risg ac o weithgareddau a wneir ac a fonitrir o fewn amgylchedd y cartref. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran annog pobl i ddewis lleoliad eu gofal eu hunain, ac i barhau i fyw gartref os mai dyma yw eu dymuniad.

Credir yn gyffredinol bod teleofal yn helpu i arafu cynnydd breuder mewn pobl hŷn drwy leihau eu lefelau pryder a thrwy gynyddu eu hyder i wneud gweithgareddau byw o ddydd i ddydd (megis gwisgo ac ymolchi) heb gymorth.

Yn gyffredinol, gellir defnyddio technoleg teleofal / cynorthwyol (AT) fel:

"cynnyrch, system neu wasanaeth sy'n helpu rhywun i :

1. *Lwyddo i gael lefel uwch o annibyniaeth a/neu*
2. *Gwella ansawdd eu bywydau a/neu*
3. *Cynyddu eu cynhwysiant yn y gymdeithas drwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gwaith neu hamdden"*

Mae offer teleofal yn amrywio o offer ar wahân megis peiriannau didoli tabledi i larymau cymunedol, canfodyddion pobl sydd wedi syrthio a synwyryddion symudiad.

Ar hyn o bryd mae pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi datblygu gwasanaeth teleofal lleol sy'n cynnwys asesiadau o anghenion a darparu offer

yn ogystal â chyfleusterau arddangos lle gall pobl weld offer mewn amgylchedd sy'n debyg i'r cartref.

Mae prosiect teleofal Gogledd Cymru'n waith ar y cyd rhwng y chwe awdurdod lleol sy'n gweithio tuag at weledigaeth y cytunwyd arni er mwyn datblygu gwasanaeth teleofal rhanbarthol. Y cam cyntaf sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd o ran sefydlu gwasanaeth rhanbarthol yw datblygu canolfan monitro teleofal ranbarthol a fydd yn gweithredu 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae 3 canolfan monitro yng Ngogledd Cymru (yn ogystal â gwasanaeth monitro a ddarparwyd i Wrecsam o Gaer).

Meddyg teulu allan o oriau

Darperir y gwasanaeth meddyg teulu allan o oriau i helpu cleifion sydd â phroblem feddygol frys na all aros tan i'r feddygfa teulu'n agor nesaf. Darperir y gwasanaeth o 6.30pm i 8am yn ystod yr wythnos a 24 awr y dydd ar y penwythnosau a gwyliau cyhoeddus.

Ni ellir defnyddio'r gwasanaeth hwn i wneud apwyntiadau arferol, i ddarparu presgripsiynau amlroddadwy nac i ddelio â phroblemau meddygol arferol. Mae hi hefyd yn bwysig gwybod y dylid defnyddio'r gwasanaeth brys 999 at gyfer unrhyw argyfyngau, megis poen difrifol yn y frest a damweiniau difrifol.

Asesir galwadau a wneir i'r gwasanaeth Allan o Oriau gan nyrsys sy'n rhoi cyngor ar y lefel fwyaf priodol o ofal. Mae'r rhain yn cynnwys ffyrdd o reoli'r symptomau gartref, cyngor i weld y meddyg pan fydd y feddygfa ar agor nesaf, cyngor dros y ffôn gan y meddyg neu'r nyrs allan o oriau, trefniadau i weld y meddyg neu'r nyrs allan o oriau neu gyngor i fynd i'r ysbyty.

Pwynt Mynediad Unigol Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae pob adran gwasanaethau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru'n gweithredu system dyletswydd neu gyswllt cyntaf fel y bydd cyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn mynd trwy bwynt mynediad unigol (ac eithrio gwasanaethau iechyd meddwl).

Yn ogystal mae tri awdurdod lleol yn y rhanbarth hefyd yn gweithredu canolfannau cyswllt / siopau un stop ar gyfer gwasanaethau eraill y cyngor.

Gwasanaethau Cyfathrebu nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru

Ymddengys fod canolbwyntiau a ddatblygwyd yn Lloegr yn bennaf yn darparu pwynt mynediad unigol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, i gefnogi cydlynu gofal brys, naill ai wrth gael mynediad at wely mewn ysbyty, trefnu gofal yn y gymuned, neu wrth gydlynu pecynnau gofal mwy cymhleth.

Syniad 'canolbwynt cyfathrebu' yw darparu 'pwynt mynediad unigol' ar gyfer

gweithwyr gofal proffesiynol, cynhalwyr a chleifion, i helpu cynllunio a darparu'r gofal mwyaf priodol i gleifion.

Mae amcanion allweddol y cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Darparu 'porth' er mwyn i weithwyr gofal proffesiynol gael mynediad at wasanaethau ar gyfer eu cleifion, gan leihau'r amser y maent yn ei dreulio yn dod o hyd i leoliadau priodol;
- Dod o hyd i becynnau gofal eraill, ac osgoi derbyniadau dianghenraid i ysbytai aciwt;
- Hwyluso cydlynu gofal yn well ar gyfer cleifion sydd ag anghenion cymhleth;
- Hwyluso a chydlynu derbyniadau i ysbytai cymunedol;
- Cefnogi rheolaeth gallu cyffredinol yn y cymunedau lleol;
- Hwyluso derbyniadau brys i ysbytai cyffredinol dosbarth;
- 'Tynnu' cleifion o ysbytai aciwt, a chefnogi eu rhyddhau'n gynnar;
- Darparu gwybodaeth hygyrch a chyfeiriadau at bob gwasanaeth;
- Helpu rheoli gweithdrefnau cynyddol

Gellid ystyried datblygu canolbwynt cyfathrebu yn defnyddio ymagwedd raddol, yn gyntaf yn darparu gwasanaeth cyfeirio, yn integreiddio gyda systemau a gwasanaethau a systemau brysbennu'r meddyg allan o oriau, a hefyd y technolegau teleofal datblygol.

6 Mapio gwybodaeth ariannol

Cydnabyddir yn dda yr heriau ariannol sy'n wynebu pob sefydliad yn y sector cyhoeddus.

Er mwyn sicrhau bod y model gofal arfaethedig yn fforddiadwy mae'n bwysig y dangosir yr adnoddau sy'n cael eu gwario ar hyn o bryd ar wasanaethau cymunedol a sylfaenol yn glir fel llinell sylfaen.

Cafodd y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yng Ngwynedd (ac a ddisgrifiwyd yn adroddiad Cam 2) ei ddatblygu ymhellach i archwilio unrhyw gydberthynas rhwng yr adnoddau a wariwyd ar ddangosyddion gofal iechyd a phoblogaeth megis amddifadedd ac oedran. Yn ogystal mae'r gwariant ar wasanaethau cymdeithasol wedi'i gynnwys yn awr ar lefel y sir.

Wrth ystyried amddifadedd, mae'r gwaith cychwynnol a wnaed yn dangos cydberthynas negyddol wael rhwng y ddau. Nid yw'n ymddangos bod Gwynedd yn gwario ei harian iechyd yn y meysydd o angen fel y'i diffinnir ym Mynegai Townsend o Amddifadedd Lluosog.

Fodd bynnag, wrth ystyried oedran mae cydberthynas gadarnhaol dda rhwng y

ddau. Ymddengys fod Gwynedd yn gwario ei harian iechyd yn y meysydd lle mae cyfran uchel o bobl hŷn.

Er yr ystyrir y gwaith hwn ymhellach yng Ngwynedd, cynigir hefyd y dylid ei ymestyn ar draws pob un o siroedd Gogledd Cymru.

7 Meini Prawf Cynllunio ar gyfer datblygu ac ail-ddylunio gwasanaethau

Un o flaenoriaethau allweddol y prosiect hwn yw datblygu, gyda rhan-ddeiliaid, model gofal y cytunir arno i'w nodi ar gyfer darpariaeth gwasanaethau cymunedol a sylfaenol yng Ngogledd Cymru.

Fodd bynnag, fel y caiff y model hwn ei fireinio ymhellach ac y caiff gwasanaethau eu hail-ddylunio ar lefelau cymdogaeth, mae'n bwysig y cynllunnir ac y gwerthusir unrhyw newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.

Fel rhan o'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn y digwyddiad a gynhaliwyd ar 13 Mai trafododd y cyfranogwyr y meini prawf yr oeddent yn meddwl y dylid eu hystyried wrth ddatblygu a newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu o fewn y gymuned.

Ceir y drafodaeth ynglŷn â'r meini prawf hyn yng nghofnod OPM y digwyddiad (a fydd ar gael ar y wefan strategaeth glinigol). Wrth ystyried y trafodaethau hyn, awgrymir y meini prawf canlynol fel llinell sylfaen ar gyfer gwaith yn y dyfodol:

- Ansawdd a diogelwch clinigol
- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion
- Grymuso cleifion
- Hygyrchedd
- A ellir ei ddarparu
- Fforddiadwyedd
- Ataliad
- Cynaliadwyedd

8 Cydraddoldeb

Cydnabyddir yr angen i sicrhau yr ymgorfforir cydraddoldeb yn y broses hon fel un hanfodol.

Yn ystod datblygu a blaenoriaethu'r gwaith gan y grŵp craidd rhoddwyd ystyriaeth i faterion cydraddoldeb. Fodd bynnag cydnabyddir bod rhaid datblygu hyn ymhellach a'i gofnodi'n ffurfiol fel rhan o'r broses. Bydd hyn yn sicrhau y caiff unrhyw effaith negyddol ar grwpiau, unigolion neu gymunedau o ganlyniad i hil, rhyw, anabledd, crefydd neu gredau, cyfeiriadedd rhywiol,

oedran, yr iaith Gymraeg neu hawliau dynol eu dileu.

Caiff asesiad effaith ar gydraddoldeb felly ei ddatblygu ymhellach.

9 Argymhellion a'r Camau Nesaf

Wrth ystyried y gwaith a wnaed fel rhan o Gam 3, mae'r grŵp craidd yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r grwpiau arbenigwyr a rhan-ddeiliaid a gaiff eu hystyried yn y digwyddiad ar 24 Mehefin:

- Y cefnogir y cwmpas a ddiffiniwyd o 'ganolbwynt cyfathrebu' yn y ffrwd-gwaith gwsanaethau gofal sylfaenol a chymuned ac y cytunir y dylid datblygu'r cysyniad ymhellach. Ymgymerir â'r gwaith hwn ar y cyd â'r ffrwd waith gofal heb ei drefnu;
- Y cefnogir y model cymdogaeth o ran egwyddor ac y cytunir ynglŷn â'r ffordd ymlaen gyda'r holl ran-ddeiliaid;
- Y cydnabyddir y mapio gwasanaeth a wnaed, gan amlygu unrhyw feysydd penodol o arfer da neu arloesiad;
- Y cefnogir y modelu ariannol a gychwynnwyd yng Ngwynedd o ran egwyddor a'i ddatblygu ledled Gogledd Cymru, caiff adroddiad terfynol ei baratoi erbyn mis Rhagfyr 2009;
- Cytuno ynglŷn â'r camau nesaf mewn symud yr holl gynigion ymlaen, gan gynnwys parhau i drefnu gweithio ar y cyd gyda rhan-ddeiliaid.